

EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

a gynhelir yn

Y NEUADD

Prynhawn a Nos Sadwrn, 10fed Ebrill 2027

Cyfarfod Prynhawn Sadwrn

Tâl Mynediad: £3.00 (Plant 50c)

Dechreuir am 12.30 o'r gloch.

Cyfarfod Nos Sadwrn

Tâl Mynediad: £4.00 (Plant 50c)

Dechreuir am 6.30 o'r gloch.

DECHREUIR Y DDAU GYFARFOD YN BRYDLON.

EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

Llywydd y Dydd:

Carys Hughes, Llanbedrog

Arweinyddion:

Netta Pritchard

Fflur Rees Jones

Beirniaid:

Cerdd a Cherdd Dant: Ann Davies, Rhuthun

Llefaru a Rhyddiaith: Andrea Parry, Y Bala

Barddoniaeth: Y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda

Arlunio a Gwaith Llaw: Miriam Jones, Llanengan

Cyfeilydd:

Tudur P. Jones, Tywyn

Swyddogion y Pwyllgor:

Cadeirydd: Glenys Williams, 4 Cae Arfryn

Is-Gadeirydd: Mrs Bethan Dyer, Parc-y-Delyn

Trysorydd: Mrs Siân Thomas, Gwynfa

Is-Drysorydd: Glenys Williams

Ysgrifennydd: Mr Dilwyn Thomas,

Meifod, Mynytho, Pwllheli, Gwynedd LL53 7RH

Ffôn: (01758) 740704 Symudol: 07979 733123

e-bost: thomasdilwyn5@gmail.com

RHESTR TESTUNAU

LLENYDDIAETH

1. Blwyddyn Derbyn/Meithrin ac 1: Llun a Brawddeg. Gwobr: Medal a £7 i'w rhannu.
2. Blwyddyn 2: Llun a Paragraff: 'Diwrnod Glawog'. Gwobr: Medal ac £8 i'w rhannu.
3. Blwyddyn 3 a 4: Stori – 'Diwrnod yn yr Haul'. Gwobr: Medal a £9 i'w rhannu.
4. Blwyddyn 5 a 6: Stori neu Barddoniaeth, 'Dydd Sadwrn'. Gwobr: Medal a £12 i'w rhannu.
5. Blwyddyn 7, 8 a 9: Darn o farddoniaeth: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
6. Blwyddyn 7, 8 a 9: Darn o ryddiaith: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
7. Dan 19 oed: Darn o ryddiaith: Testun agored. Gwobr: Tlws (rhoddedig gan Mrs Ann Jones er cof am ei phriod, Thomas W. Jones) a £12.
8. Dan 25 oed: Darn o ryddiaith: Testun agored. Gwobr: Tlws y Prifardd (rhoddedig gan deulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones).
9. Cyfansoddi Darn Llefaru i blant dan 6 oed. Gwobr: £20 (rhoddedig er cof am y ddiweddar Heulwen M. Thomas, Meifod). Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi'r cynnyrch buddugol ar gyfer cystadleuaeth.
10. Emyn i ddatlu Bedydd. Gwobr: £10.
11. Cywydd, heb fod dros ugain llinell, 'Dagrau'. Gwobr: £10.
12. Soned, 'Dyfodiad'. Gwobr: £10.
13. Telyneg, 'Y Foel Tŵr'. Gwobr: £10.
14. Englyn, 'Y Wawr'. Gwobr: £10.
15. Englyn Ysgafn, 'Crwydro'. Gwobr: £10.
16. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell, 'Pontio'. Gwobr: Cadair yr Eisteddfod (model) a £30.
17. Rhyddiaith: Ysgrif – 'Yr Arwr'. Gwobr: Tlws (rhoddedig) i'w gadw am flwyddyn a £15.

Cynhelir Seremoni Tlysau'r Ieuenctid a Seremoni'r Cadeirio yng nghyfarfod yr hwyr. Cenir Cân y Cadeirio gan Carol Pugh, Botwnnog a chenir y Corn Gwlad gan Efan Thomas, Chwilog. Mae'r model o Gadair yn waith Miriam Jones, Penmorfa, Llanengan.

Beirniadaethau 1-6 prynhawn Sadwrn.

Beirniadaethau 7-17 nos Sadwrn.

–

Rhestr Testunau ar gael yn gyflawn ar www.steddfota.cymru

18. I bob oed: Cyfansoddi cân ar eiriau'r Darn Llefaru buddugol yn Eisteddfod 2026. Gwobr: £12. (Beirniadaeth nos Sadwrn.)

Ffrindia'

Dwi'n ffrindia' efo Alys,
A Beca, Siôn a Huw,
Ond Nel, heb os 'di'r gora',
Yn Ffôr mae hi yn byw.

Cawn chwara' bob penwythnos,
A thrwy y gwylia' i gyd.
Fydd Nel byth, byth yn blino,
Ma' hi yn werth y byd.

Fyddwn ni ddim yn ffraeo,
A neith hi byth ddeud paid,
Caf chwara' pêl am oria'
Â Nel, ci nain a taid!

*Owenna Hughes,
Pencaenewydd*

ARLUNIO (unrhyw gyfrwng)

1. Meithrin a Derbyn: Anifail anwes. Gwobr: £7.
2. Blwyddyn 1 a 2: Fy hoff fwyd. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Fy hoff gêm. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Ffermio. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Natur yr Hydref. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Siwrna'. Gwobr: Cwpan (rhoddedig er cof am Gwynfor Ellis) a £12.

GWAITH LLAW (unrhyw gyfrwng)

1. Meithrin a Derbyn: Pysgod. Gwobr: £7
2. Blwyddyn 1 a 2: Anifail y Sŵ. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Fy hoff ddiod. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Coedwig. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Masg. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Hunaniaeth. Gwobr: £12.

CYFARFOD PRYNHAWN SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r cystadlaethau Canu a Llefaru dan 6 oed.

CERDDORIAETH

1. Unawd dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
2. Unawd Bl. 2 ac iau: 'Bwrw glaw', J. Glyn Davies. Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod. Cywair: E^b fwyaf. Cenir y ddau far fel rhagarweiniad i bob pennill; neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £5.50; 2, £4.50; 3, £4.
3. Unawd Bl. 2 ac iau (cyfyngedig i ddisgyblon Ysgol Foel Gron): Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £5.50; 2, £4.50; 3, £4.
4. Unawd Bl. 3 a 4: 'Lliwiau'r Hydref', Gilmor Griffiths, allan o 'Hwyl ar y gân' (Y Lolfa). Cywair: E^b fwyaf (C[?]E^b). Cywair: C fwyaf (A[?]C). Copi yn C ar werth o Adran yr Eisteddfod; neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £5; 3, £4.
5. Unawd Bl. 5 a 6: 'Meddyliau Plentyn', R. J. Evans. Cywair: A fwyaf (F[?]E') – y copi gwreiddiol. Cywair: F fwyaf (D[?]C'). Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod; neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
6. Unawd Piano Bl. 6 ac iau: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 3 munud. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
7. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau: 'Hen Wraig Fach', gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans, allan o 'Caneuon Gwerin i Blant' (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru); neu Unrhyw. I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol naturiol. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
8. Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
9. Deuawd Bl. 6 ac iau: 'Helen', J. Eirian Jones, allan o 'Cynghanedd Cariad' (Y Lolfa); neu Unrhyw. Gwobr: £18 i'w rhannu.
10. Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: 'Caraf yr Haul', Gwen F. Smith, efel. John Gwilym Jones, Rhif 122 'Caneuon Ffydd' (Cymdeithas Caneuon Ffydd). Cainc: 'Hyd y Llwybr' (122), Bethan Bryn, allan o 'Lobsgows' (Curiad). Rhaid cyplysu i dri phennill; neu Unrhyw. Gwobr: £18 i'w rhannu.
11. Parti Unsain Bl. 6 ac iau (Adrannau). Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Joio yn y Jambori', Rhodri Harries a Rhys Harries. Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol at y piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirnedir; neu Unrhyw; neu i Ysgolion â hyd at 50 o blant (YC): Parti Unsain. Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Pum Darn o Ffrwyth', Rhodri Harries. Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol at y piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirnedir; neu Unrhyw. Gwobr: £20.
12. Unawd Merched Bl. 7, 8 a 9: 'Gwanwyn', Morfydd Llwyn Owen (Cwmni Cyhoeddi Oriana). Cywair: F fwyaf (C[?]F). Cywair: D fwyaf (A[?]D); neu Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £13; 2, £11; 3, £9.
13. Unawd Bechgyn Bl. 7, 8 a 9: 'Mae gen i ddafad gorniog', Mansel Thomas (Cwmni Cyhoeddi Gwynn). Cywair: A leiaf (E[?]E'). Cywair: F leiaf (C[?]C); neu Unrhyw. Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri. Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.

14. Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Telyn', Tudur Dylan Jones. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod. Cainc: 'Enid' (122), Kim Lloyd Jones, allan o 'Allwedd y Tannau 82' (Cymdeithas Cerdd Dant Cymru); neu Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am Guto ac Enid Jones, Egryn, Parciau, Mynytho) a £13; 2, £11; 3, £9.
15. Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 4 munud. (Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.) Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.
16. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Cobler Coch o Hengoed', gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans, allan o 'Canu'r Cymry 1 a 2' (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru); neu Unrhyw. I'w chanu'n ddigyfeiliant neu mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol naturiol. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £13; 2, £11; 3, £9.
17. Perfformiad o Gân Sioe Gerdd Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad. Dim mwy na 3 munud. Y perfformiad yw'r elfen bwysig, sef cyfleu'r stori a'r cymeriad, nid cywirdeb i'r copi bob tro. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cystadlu. Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.
18. Deuawd Bl. 7, 8 a 9: 'Nos Da', Mai Jones ('Ascherberg 11829'); neu Unrhyw. Gwobr: £22.
19. Deuawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Dychymyg', Lis Jones, allan o 'Byw a Bod yn y Bath' (Gwasg Carreg Gwalch). Cainc: 'Maes Maelor' (122), Mair Carrington Roberts, allan o 'Ceinciau'r Ffin' (Cyhoeddiadau Curiad); neu Unrhyw. Gwobr: £22 i'w rhannu.

LLEFARU

1. Dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
2. Unigol Bl. 2 ac iau: 'Grwndi', John Hywyn, allan o 'Rhannu'r hwyl', Cerddi i Blant (Y Lolfa/Gomer). Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod; neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £5.50; 2, £4.50; 3, £4.
3. Unigol Bl. 2 ac iau (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): 'Ffrindia', Owenna Hughes (tud. 4); neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
4. Unigol Bl. 3 a 4: 'Breuddwydion', Anni Llŷn, allan o 'Dim ond Traed Brain' (Y Lolfa); neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £5; 3, £4.
5. Unigol Bl. 5 a 6: 'Siop Lyfrau', Nesta Wyn Jones, allan o 'Ffŵl yn y Dŵr' (Gwasg Gomer/Y Lolfa); neu Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £7; 2, £5; 3, £4.
6. Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau (6-12 mewn nifer): 'Tro Gwael ar yr A470', Myrddin ap Dafydd, allan o 'Tafodau Symudol' (Gwasg Carreg Gwalch); neu Unrhyw; i Adrannau (6-12 mewn nifer): 'Ar Wib efo'r Trolï', Beryl Steeden Jones, allan o 'Odl a Chodl' (Y Lolfa); neu Unrhyw. Gwobr: £20.
7. Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Mae'r ddraig yma o hyd', T. James Jones, allan o 'Y Caeth yn Rhydd' (Cyhoeddiadau Barddas); neu Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £13; 2, £11; 3, £9.
8. Monolog Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad. Monolog o ddrama, nofel Gymraeg neu sgript wreiddiol. Dim mwy na 3 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio. Dylid ystyried y gynulleidfa deuluol wrth ddewis monolog. Gwobr: 1, Cwpan a £13; 2, £11; 3, £9.
9. I bob oed: Cystadleuaeth "Sgen ti dalent?" (Gweler y manylion yn rhestr cystadlaethau nos Sadwrn.) Gwobr: £50, i'w rannu yn ôl dymuniad y Beirniaid.

CYFARFOD NOS SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r gystadleuaeth Unawd Bl. 10 a dan 19 oed.

Cystadleuwyr i drafod eu dewisiadau gyda'r Cyfeilydd
ychydig ddyddiau cyn yr Eisteddfod.
E-bost: tudurpjones@btinternet.com

CERDDORIAETH

1. Unawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £15; 2, £13; 3, £9.
2. Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Tlws (rhoddedig er cof am y diweddar John R. Thomas, Meifod) a £15.
3. Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 7 munud. Gwobr: 1, Cwpan Coffa Eiluned Douglas-Williams (i'w gadw am flwyddyn) a £15; 2, £13; 3, £9.
4. Dan 19 oed: Canu unrhyw offeryn heblaw'r piano: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan a £15; 2, £13; 3, £9.
5. Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.
6. Deuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.
7. Unawd dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w gadw am flwyddyn (rhoddedig er cof am Humphrey Jones, Hafod-y-Grug) ac £17; 2, £15; 3, £13.
8. Bl. 10 a throsodd: Perfformiad o gân Sioe Gerdd. Dim hwy na 4 munud. Hunan-ddewisiad. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cystadlu. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am John Elwyn Parry, Coed-y-Fron) ac £17; 2, £13; 3, £11.
9. Unawd Agored: Canu Unrhyw Eryn. Gwobr: 1, Cwpan (i'w gadw am flwyddyn) er cof am y ddiweddar Katie Williams, Maesteg, Llanbedrog, ac £21; 2, £16; 3, £11.
10. Cân Werin Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (er cof am y diweddar Einion P. Jones, a fu'n Drysorydd yr Eisteddfod) ac £17; 2, £13; 3, £11.
11. Unawd Cerdd Dant Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w ddal am flwyddyn (er cof am Carys Jones, Awel-y-Mynydd) ac £17; 2, £13; 3, £11.
12. Unawd Gymraeg Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan, i'w ddal am flwyddyn (rhoddedig er cof am y ddiweddar Katie Wyn Jones gan y teulu) ac £21; 2, £17; 3, £13.
13. Her Unawd: Unrhyw unawd o gyfanwaith (Opera/Oratorio). Gweler Amod 5. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig gan deulu 18 Bryn Adda, Bangor, er cof am y ddiweddar Catherine Rhianwen Jones) ac £21; 2, £17; 3, £13.
14. Deuawd Agored: Unrhyw. Gwobr: £26.
15. Parti Unsain neu Ddeulais: Unrhyw. Gwobr: £35.

16. Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2026-2027, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer. Unrhyw gyfuniad o leisiau i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunan-ddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr/gyfansoddwraig o Gymru. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng 1af Mai 2026 a 1af Mai 2027 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn/Meirionnydd 2027. Gwobr: 1, Cwpan a £70; 2, £50. (Y Cwpan i'w ennill dair gwaith yn olynol neu bedair gwaith i gyd.)
17. Ensemble Sioe Gerdd. Cyflwyno cân neu olygfa allan o Sioe Gerdd Gymraeg wreiddiol. Caniateir rhwng 2 ac 8 perfformiwr mewn nifer. Perfformiad heb fod yn hwy na 5 munud. Gellir defnyddio piano neu gyfeiliant addas neu drac cefndir. Caniateir canu mewn unrhyw gyweirnod. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng 1af Mai 2026 a 1af Mai 2027 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol 2027. Gwobr: £30.

LLEFARU

1. Unigol Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £15; 2, £13; 3, £11.
2. Unigol dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) ac £17; 2, £15; 3, £13.
3. Prif Gystadleuaeth Llefaru: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan a £21; 2, £17; 3, £15.
4. Grŵp Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Tarian (rhoddedig) i'w chadw am flwyddyn a £70; 2, £50.

I bob oed: Cystadleuaeth "Sgen ti dalent?". Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa. (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio offer.) Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall, e.e. Cân o Sioe Gerdd. Gwobr: £50, i'w rannu yn ôl dymuniad y Beirniaid.

AMODAU

1. Bydd gan y Beirniaid hawl i atal, rhannu neu gwtogi gwobrau.
2. Rhaid i bawb a fydd yn cystadlu ar destunau'r Urdd fod yn yr oedran priodol ar y dydd olaf o Awst 2027, a'r holl gystadleuwyr eraill i fod yn yr oedran priodol ddydd yr Eisteddfod. Ni chaniateir cystadlu ond mewn dosbarth sy'n cyfateb i oedran y cystadleuydd, ac ni ddylid defnyddio'r un darn mewn dwy gystadleuaeth wahanol.
3. Ceidw y Pwyllgor hawl i fynnu prawf o ddilysrwydd unrhyw gystadleuydd.
4. **Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ar yr eitemau agored.**
5. Ni chaniateir cystadlu ond yn Gymraeg.
6. Disgwylir i'r ymgeiswyr anfon eu henwau i'r Ysgrifennydd erbyn 8fed Ebrill 2027.
7. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus, ond un ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Bydd barn y Pwyllgor yn derfynol.
8. Y Cyfansoddiadau a'r Gwaith Llaw i fod yn llaw'r Ysgrifennydd (ac nid i'w hanfon i'r Beirniaid) erbyn 20 Mawrth 2027. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith gan amgáu enw a chyfeiriad ar wahân.
9. Gellir cael copi o'r beirniadaethau llenyddol cyn 30ain Ebrill 2027, yna fe'u dychwelir ond gwneud cais amdanynt gan anfon amlen addas stampiedig.
10. Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi detholiad o'r cynhyrchion.
11. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.

**Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol
gan yr Ysgrifennydd.**

*Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at
dreuliau yr Eisteddfod. Diolch i Berwyn a Brenda Williams, Gwel-
fryn am eu rhodd o Gadair yr Eisteddfod; Mrs Ann Jones
a theulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones.*